**Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dai**

**8 Tachwedd 2021**

**Yn bresennol**

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor AS | Senedd Cymru (Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol) |
| James Evans AS | Senedd Cymru |
| Altaf Hussein AS | Senedd Cymru |
| Alun Davies AS | Senedd Cymru |
| Sioned Williams AS | Senedd Cymru |
| Peredur Owen Griffiths AS | Senedd Cymru |
| Mark Isherwood AS | Senedd Cymru |
| Y Cynghorydd Rhys Taylor | Swyddfa Jane Dodds AS |
| Y Cynghorydd Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS |
| Sam Swash | Swyddfa Carolyn Thomas AS |
| Ryan Ellis | Swyddfa Janet Finch-Saunders AS |
| Elin Hywel | Swyddfa Mabon ap Gwynfor AS |
| Y Cynghorydd David Daniels | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Y Cynghorydd Tony Thomas | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd Lynda Thorne | Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dai Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Y Cynghorydd Goronwy Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd Iain McIntosh | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| Steve Porter | Cyngor Abertawe |
| Sandra Canham | Cyngor Caerdydd |
| Ned Michael | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Julie Francis | Cyngor Wrecsam |
| Natalee Jones | Cyngor Gwynedd |
| Nina Davies | Cyngor Sir Powys |
| Colleen Pritchard | Cyngor Gwynedd |
| Mark Congreve | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Ruth Power | Shelter Cymru |
| Jennie Bibbings | Shelter Cymru |
| Rob Simkins | Shelter Cymru |
| Emily Church | CLA Cymru |
| Ceri Cryer | Age Cymru |
| Bob Smith | Prifysgol Caerdydd (CaCHE) |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| Katie Dalton | Cymorth Cymru |
| Mandy Powell | Cymorth Cymru |
| Catherine Mai | CIH Cymru |
| Rhea Stevens | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Amy Lee Pierce | The Wallich |
| Steffan Evans | Sefydliad Bevan |
| Hugh Kocan | Sefydliad Bevan |
| Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |

| | |
|---|---|
| Bill Rowlands | End Youth Homelessness Cymru |
| Tim Thomas | NRLA |
| Hugh Russell | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Elizabeth Taylor | TPAS Cymru |
| Jordan Brewer | Cymorth i Ferched Cymru |
| Nick Morris | Crisis |

**Ymddiheuriadau**

| Enw | Rôl |
|---|---|
| John Griffiths AS | Senedd Cymru |
| Lesley Griffiths AS | Senedd Cymru |
| Sam Kurtz AS | Senedd Cymru |
| Luke Fletcher AS | Senedd Cymru |
| Sarah Murphy AS | Senedd Cymru |
| Buffy Williams AS | Senedd Cymru |
| Cefin Campbell AS | Senedd Cymru |
| Paul Davies AS | Senedd Cymru |
| Russell George AS | Senedd Cymru |
| Delyth Jewell AS | Senedd Cymru |
| Huw Irranca-Davies AS | Senedd Cymru |
| Y Cynghorydd Rob Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cynghorydd Alun Mummery | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Dafydd Edwards | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Lisa Phipps | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Y Cynghorydd Rhys Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Y Cynghorydd Andrea Lewis | Cyngor Abertawe/CLILC |
| Y Cynghorydd Kevin Gibbs | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| Eitem ar yr Agenda | Nodiadau |
|---|---|
| **Croeso gan y Cadeirydd + Ein Grŵp Trawsbleidiol a'r chweched Senedd** | Croesawodd **Mabon ap Gwynfor AS** aelodau i'r grŵp. Agorwyd drwy egluro sefyllfa ein hargyfwng tai a rennir a phwysigrwydd y grŵp hwn o ran llywio'r ymateb i heriau sy'n ymwneud â thai. |
| **Adeiladu Darlun ar Fforddiadwyedd** | Cyflwynodd **Jennie Bibbings** gynllun gwaith ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol (sleidiau ynghlwm) er mwyn deall yn well yr argyfwng fforddiadwyedd yng Nghymru a sut mae hyn yn llywio ein hargyfwng tai a rennir. Bydd y gwaith yn cynnwys sesiynau briffio rheolaidd i randdeiliaid, yn ogystal â datgelu'r bylchau tystiolaeth presennol a mynd i'r afael â'r rhain gyda sesiynau tystiolaeth gan arbenigwyr yng Nghymru, y DU a thu hwnt.<br><br>Mae **Nick Morris** yn croesawu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn gyffredinol, gan awgrymu y dylid archwilio atebion posibl yn gynt lle bo hynny'n bosibl. Nodwyd hefyd nad y Senedd a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr holl ysgogiadau ar gyfer newid. |

| | |
|---|---|
| | Awgrymodd **Rhea Stevens** y byddai'r rhaglen ddrafft yn cael ei hategu trwy glywed oddi wrth bartneriaid cyflenwi yng Nghymru, megis llywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol. Gallai dod â'r cyrff hyn i mewn helpu i ddileu rhai o'r rhwystrau a nodwyd yn y cyflwyniad.<br><br>Nododd **Katie Dalton** bod cyfle ar y cyd wrth inni wella o'r pandemig. Mae miloedd o bobl â mynediad at gymorth tai a digartrefedd sydd wedi'u methu gan y system yn y gorffennol, gan gynnwys cael mynediad at gymorth gan wasanaethau eraill fel iechyd. Mae'n bwysig nad ydym yn siomi'r bobl hyn. Mae llawer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cystadlu â'i gilydd, ond mae angen inni gydweithio ar draws y pleidiau i sicrhau bod tai'n cael y sylw dyladwy fel elfen sylfaenol o'r system.<br><br>Soniodd **y Cynghorydd Goronwy Edwards** am yr angen "enfawr" am dai yng Nghonwy sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i Covid-19. Meddai ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r adnoddau i awdurdodau lleol fel y gallant fynd i'r afael â materion tai, megis ail gartrefi, cartrefi gwag ac mae llawer o gynghorau yn aros iddynt gyflwyno deddfwriaeth i'w helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. |
| **Cartrefi Gwag yng Nghymru; Arfer Da a'r Camau Nesaf** | Rhoddodd **Catherine May** gyflwyniad (sleidiau ynghlwm) i'r grŵp, gan amlinellu rhai o'r rhwystrau a wynebir wrth fynd i'r afael â chartrefi gwag yng Nghymru, pob dim o ddiffyg cyngor a chymorth i ataliadau ariannol a chapasiti gorfodi. Archwiliodd y cyflwyniad enghreifftiau o arfer da mewn atebion a arweinir gan y gymuned i gartrefi gwag, fel rhan o brosiect Tyfu Tai Cymru o fewn CIH Cymru a siaradodd am y mater rhyng-gysylltiedig o ddarparu tai o'r meintiau iawn ledled Cymru.<br><br>Nododd **y Cynghorydd Tony Thomas** fod cartrefi gwag yn fater emosiynol ac, o safbwynt ei awdurdod lleol, y gellir dadwneud llawer o waith da drwy gymhlethdodau ac oedi mewn perthynas ag un neu ddau eiddo, gan guddio cynnydd ehangach.<br><br>Tynnodd **Steffan Evans** sylw at y tebygrwydd rhwng benthyciadau sy'n darparu rhwystrau, gan gyfeirio at waith diweddar Sefydliad Bevan ar Lwfans Tai Lleol. Nodwyd y gallai fod cydgysylltiad rhwng gwaith Tyfu Tai Cymru a rhai o'r canfyddiadau mewn perthynas â Chynllun Prydlesu PRS a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Atgoffodd **Mark Isherwood AS** y grŵp fod gorfodi yn faes y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn cyfeirio ato ers 2004, a bydd symleiddio'r maes hwn i'w alluogi i weithio yn bwysig. Nodwyd bod gweinidogion blaenorol yn hyrwyddo'r model tai cydweithredol ac yn annog pobl i edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn wahanol, gan nodi bod cymryd camau gweithredu cymhellol yn y gorffennol wedi profi'n fwy ffrwythlon na chamau gorfodi.<br><br>Cytunodd **Hugh Russell** â'r pwyntiau a godwyd gan Mark Isherwood AS gan nodi bod Canolfan Cydweithredol Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar hyrwyddo tai dan arweiniad y gymuned. Mae'n nodi nad yw gweithio |

| | |
|---|---|
| | mewn modd o'r brig i lawr yn gweithio ar ardaloedd lle mae'r gymuned yn arwain a bod cefnogi gweledigaeth cymunedau yn allweddol i gynnydd. Gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi'n ariannol, o ran morgeisi a phrynu tir. |
| **Diwedd y Cyfarfod** | **Mabon ap Gwynfor AS** yn diolch i'r rhai a oedd yn bresennol gan gloi'r cyfarfod. |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | Bydd dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai yn cael ei ddosbarthu cyn gynted â phosib. |